

## **Rhannu eich Cofnod Meddygol Meddyg Teulu gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal**

Yng Nghymru, mae 64 grŵp o feddygfeydd teulu wedi cael eu sefydlu. Gelwir y grwpiau hyn yn 'Glystyrau Gofal Sylfaenol'. Eu nod yw sicrhau bod holl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu cleifion yn cael eu diwallu yn y ffordd orau posibl. Ym mhob clwstwr, bydd y meddyg teulu'n cydweithio ag ymarferwyr nyrsio, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel ffisiotherapyddion, i rannu gwybodaeth ac adnoddau. Mae'r manteision o weithio yn y ffordd hon yn cynnwys:

- cynnal y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng y meddyg a'r claf, yn absenoldeb eich meddyg teulu arferol.
- gwell mynediad i ymgynghoriadau ar draws safleoedd gwahanol.
- ystod ehangach o wasanaethau.

### **Pwy fydd yn gallu cael mynediad at fy nghofnodion meddygol a sut y byddant yn gwneud defnydd ohonynt?**

Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys yn gallu cael mynediad at eich cofnod meddygol. Fel arfer, bydd hynny'n cael ei wneud mewn ymateb i broblem benodol sy'n effeithio arnoch, a bydd yn galluogi'r gweithiwr proffesiynol i weld gwybodaeth berthnasol yn gyflymach ac yn haws.

Efallai bydd Fferyllwyr Clwstwr yn cael mynediad at eich cofnodion wrth adolygu eich presgripsiynau neu ateb unrhyw ymholiadau am eich meddyginiaeth, er enghraifft. Y nod yw sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi i gleifion mewn ffordd ddiogel, effeithlon ac effeithiol.

Yn ogystal, bydd staff derbynfeydd yn gallu cael mynediad at gofnodion er mwyn gwneud tasgau fel prosesu presgripsiynau, darparu canlyniadau profion a chyfarwyddo cleifion at weithwyr iechyd proffesiynol priodol.

Bydd pob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n cael mynediad i'ch cofnodion un ai'n gweithio i feddygfa o fewn y Clwstwr neu i'r Bwrdd Iechyd Lleol. Gallwch weld manylion y meddygfeydd sy'n rhan o'ch clwstwr chi trwy glicio ar y ddolen hon – Bethesda, Bron Derw, Bodnant, Cernarfon, Glanfa, Llanberis, Menai Bridge/Felinheli, Penygroes and Waunfawr.

### **Pa fanylion fydd modd iddynt eu gweld?**

Lle bo angen, bydd modd i weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol gael mynediad i'r wybodaeth ganlynol:

- gwybodaeth bersonol, er enghraifft eich enw, dyddiad geni, rhyw
- alergeddau meddyginiaeth
- derbyniadau ysbyty, dyddiadau mynychu ac atgyfeirio
- brechiadau ac imiwneiddiadau
- canlyniadau profion, gan gynnwys mesuriadau fel pwysedd gwaed
- diagnosis (problemau cyfredol a blaenorol)
- triniaethau a gweithdrefnau meddygol

## **Pa wybodaeth na fydd hawl ganddynt ei gweld?**

Fel rheol, ni fydd gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yn cael eu hatal rhag gweld unrhyw fanylion, oni bai eich bod chi'n gwneud cais i'w hatal rhag gweld manylion penodol. Er enghraifft, gallwch wneud cais i atal unigolion penodol rhag gweld gwybodaeth sensitif, er enghraifft clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, terfynu beichiogrwydd ac ati. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, trafodwch nhw'n fewnol gyda Rheolwr y Feddygfa.

## **Sut bydd fy manylion yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol?**

Bydd eich cofnod meddygol yn cael ei gadw ar system gyfrifiadurol ddiogel a byddwn yn rheoli unrhyw fynediad iddi. Mae pob meddygfa sy'n rhan o'r Clwstwr wedi llofnodi cytundeb sy'n cadarnhau y byddant yn dilyn y rheoliadau llym sy'n gysylltiedig â'r system gyfrifiadurol, ac mewn perthynas ag unrhyw aelodau staff sy'n gallu cael mynediad i'r system. Mae gan bob un sy'n gweithio yn y Clwstwr ddyletswydd gyfreithiol, cytundebol a phroffesiynol i gadw eich manylion yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

## **Ydw i'n gallu gweld pwy sydd wedi cael mynediad i fy nghofnodion meddygol?**

Bob tro mae rhywun yn cael mynediad i'ch cofnod meddygol, caiff log ei greu. Cedwir y logiau hyn, felly os ydych yn poeni bod rhywun anaddas wedi cael mynediad i'ch cofnodion, trafodwch y mater yn fewnol gyda Rheolwr y Feddygfa.

## **A oes perygl y bydd rhywun yn hacio fy nghofnodion neu a all fy ngwybodaeth fynd ar goll?**

Mae cytundebau yn eu lle gyda darparwr y systemau cyfrifiadurol clinigol i sicrhau bod mesurau diogelwch cadarn yn eu lle. Bydd y mesurau hyn yn atal unrhyw un rhag cael mynediad at wybodaeth heb ganiatâd, ac yn sicrhau na fydd eich cofnodion yn mynd ar goll nac yn cael eu gweld gan drydydd parti anaddas.

## **Mwy o wybodaeth**

Cyfeiriwch at ein taflen 'Clwstwr Gofal Sylfaenol: Cael Mynediad i'ch Cofnodion Meddygol' (sydd ar gael ar ein gwefan ac o dderbynfa eich meddygfa). Mae'r daflen yn esbonio sut y gallwch gael mynediad at eich cofnodion iechyd, sut y gallwch gael mwy o wybodaeth a beth y dylech ei wneud os oes gennych unrhyw bryderon am eich manylion.

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol, gallwch drafod rhannu eich cofnodion meddygol gyda Rheolwr y Feddygfa, eich Meddyg Teulu neu unrhyw aelod arall o'r tîm gofal iechyd –  
Shelagh.Price@wales.nhs.uk